# Bywydau Digidol

Cynhadledd Flynyddol 2026 Anabledd Dysgu Cymru

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Nawdd

Dydd Mercher 4 Tachwedd – Cyffordd Llandudno, Gogledd Cymru

Dydd Mercher 11 Tachwedd – Abertawe, De Cymru

# Am ein cynhadledd flynyddol



Nid yw cynhadledd flynyddol Anabledd Dysgu Cymru yn debyg i gynadleddau eraill.  Mae'n sefyll allan o'r dorf fel enghraifft o gynhwysiant a hygyrchedd.  Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein digwyddiad yn gyfeillgar ac yn groesawgar i bawb, p'un a oes gennych anabledd dysgu ai peidio.

Mae llawer o'n siaradwyr ac arweinwyr gweithdai yn arbenigwyr yn ôl eu profiadau eu hunain o gael anabledd dysgu, rydym yn credu bod pawb yn elwa o gymryd y dull hwn. Bob blwyddyn mae'r gynhadledd yn dwyn ynghyd bobl ag anabledd dysgu a gweithwyr proffesiynol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn awdurdodau lleol, darparwyr cymorth, mudiadau gwirfoddol, a chomisiynwyr.

Bydd Bywydau Digidol yn archwilio sut y gall offer digidol o apiau bob dydd AI rymuso pobl ag anabledd dysgu i gael mwy o ddewis, llais a rheolaeth yn eu bywydau. Bydd y gynhadledd yn tynnu sylw at yr heriau, megis allgáu digidol a hygyrchedd, a'r cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu, cymorth personol, a mwy o annibyniaeth. **Gallwch fod yn rhan o'r digwyddiad unigryw hwn.**

# Sut gallwch chi elwa







Mae cefnogi ein cynhadledd drwy nawdd yn rhoi cyfle i chi gyrraedd a dylanwadu ar bobl a sefydliadau yn y gymuned anabledd dysgu yng Nghymru, gall hefyd eich helpu i:

- Cynyddu gwelededd eich sefydliad
- Targedu sefydliadau yn y maes hwn mewn ffordd gost-effeithiol
- Dod o hyd i gleientiaid, partneriaid, a chwsmeriaid newydd
- Cynyddu eich cyfran o'r farchnad di-elw
- Meithrin perthynas â mudiadau eraill yn y sector gwirfoddol
- Dangos eich ymrwymiad i sector di-elw cryf

# Cipolwg ar opsiynau Noddi

| | Aur | Arian | Efydd | Cinio |
|---|---|---|---|---|
| Gofod arddangos | ✓ | | | |
| Hysbyseb tudalen lawn yn y llyfryn cynrychiolwyr | ✓ | ✓ | | |
| Hysbyseb hanner tudalen yn y llyfryn cynrychiolwyr | | | ✓ | ✓ |
| Gwahoddiad i annerch y digwyddiad | ✓ | | | |
| Gofodau cynrychiolwyr yn gynweysiedig | 2 | 2 | 1 | |
| Eich logo ar y sgrin yn ystod y digwyddiad | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Eich deunyddiau mewn pecyn cynrychiolwyr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Eich logo ar ein gwefan | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Eich logo ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Eich manylion cyswllt mewn pecynnau cynrychiolwyr | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dangos baner mewn digwyddiad | ✓ | | | |
| Cydnabyddiaeth  o nawdd gan gadeirydd y digwyddiad | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Taflenni mewn ystafell fwyta | | | | ✓ |

# Nawdd Aur

## £1750 + TAW y diwrnod

Fel prif noddwr y digwyddiad, fe gewch:

- Gofod arddangos mewn prif leoliad yn y digwyddiad
- 2 le i staff yn eich stondin arddangosfa sy'n gallu mynychu'r gynhadledd fel cynrychiolwyr llawn neu'r cyfle i roi'r lleoedd i eraill
- Eich logo ar holl ddeunyddiau marchnata'r gynhadledd a anfonwyd i dros 4000 o unigolion a sefydliadau yn y sector anabledd dysgu yng Nghymru
- Eich logo yn cael ei arddangos ar dudalennau'r gynhadledd ar wefan Anabledd Dysgu Cymru gyda hyperddolen i wefan y cwmni fel prif noddwr
- Hysbyseb lliw A4 tudalen lawn i ymddangos yn llawlyfr y Gynhadledd
- Cyfle i arddangos eich baner dros dro yn y dderbynfa ddigwyddiadau
- Eich llyfrynnau, taflenni neu nwyddau wedi'u cynnwys ym mhob pecyn cynadleddwyr
- Logo eich cwmni a manylion cyswllt i'w cynnwys yn y pecynnau cynadleddwyr
- Cyhoeddiad noddwr yn ystod digwyddiad
- Logo ar y sgrin yn ystod y digwyddiad
- Gwahoddiad i annerch y digwyddiad

Byddwn yn sicrhau fod pawb yn gwybod cymaint yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gydnabod eich sefydliad fel prif noddwr mewn unrhyw sylw yn y wasg ac oddi wrth gadeirydd y digwyddiad yn ystod y digwyddiad.

Gallwch ein helpu i sicrhau ein bod yn darparu cynhadledd sy'n llawn cyflwyniadau a gweithdai rhyngweithiol ac addysgiadol gyda'ch nawdd.

# Nawdd Arian

## £1250 + TAW y dydd

Fel noddwr, fe gewch:

- 2 le yn y gynhadledd neu'r cyfle i roi eich llefydd i eraill
- Eich logo ar holl ddeunyddiau marchnata'r gynhadledd a anfonwyd i dros 4000 o unigolion a sefydliadau yn y sector anabledd dysgu yng Nghymru
- Eich logo yn cael ei arddangos ar dudalennau'r gynhadledd ar wefan Anabledd Dysgu Cymru gyda hyperddolen i wefan y cwmni fel noddwr
- Hysbyseb lliw A4 tudalen lawn i ymddangos yn llawlyfr y Gynhadledd
- Eich llyfrynnau, taflenni neu nwyddau wedi'u cynnwys ym mhob pecyn cynadleddwyr
- Logo eich cwmni a manylion cyswllt i'w cynnwys yn y pecynnau cynadleddwyr
- Cyhoeddiad noddwr yn ystod digwyddiad
- Logo ar y sgrîn yn ystod digwyddiad

Byddwn yn sicrhau fod pawb yn gwybod cymaint yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gydnabod eich sefydliad fel noddwr mewn unrhyw sylw yn y wasg ac oddi wrth gadeirydd y digwyddiad yn ystod y digwyddiad.

Gallwch fod yn sicr ein bod yn gallu cynnig y prisiau isaf posib i bobl sydd ag anabledd dysgu fynychu'r gynhadledd hon trwy nawdd.

# Nawdd Efydd

## £800 + TAW y diwrnod

Fel noddwr, fe gewch:

- 1 lle yn y gynhadledd neu gyfle i roi eich lle i rhywun arall
- Eich logo ar holl ddeunyddiau marchnata'r gynhadledd a anfonwyd i dros 4000 o unigolion a sefydliadau yn y sector anabledd dysgu yng Nghymru
- Eich logo yn cael ei arddangos ar dudalennau'r gynhadledd ar wefan Anabledd Dysgu Cymru gyda hyperddolen i wefan y cwmni fel noddwr
- Hanner tudalen Hysbyseb lliw A4 i ymddangos yn  llawlyfr y Gynhadledd
- Eich llyfrynnau, taflenni neu nwyddau wedi'u cynnwys ym mhob pecyn cynadleddwyr
- Logo eich cwmni a manylion cyswllt i'w cynnwys yn y pecynnau cynadleddwyr
- Cyhoeddiad noddwr yn ystod digwyddiad
- Logo ar y sgrîn yn ystod digwyddiad

Byddwn yn sicrhau fod pawb yn gwybod cymaint yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth drwy gydnabod eich sefydliad fel noddwr mewn unrhyw sylw yn y wasg ac oddi wrth gadeirydd y digwyddiad yn ystod y digwyddiad.

Bydd eich nawdd yn cyfrannu tuag wneud pob rhan o'r gynhadledd yn gwbl hygyrch i bob cynrychiolydd sydd ag anabledd dysgu.

# Cinio i'r cynrychiolwyr

## £1500 + TAW y dydd

Mae ein cynhadledd yn ddiwrnod prysur o gyflwyniadau a gweithdai bywiog, felly mae pobl bob amser yn gwerthfawrogi cinio da.

Drwy noddi cinio, fe gewch:

- Cydnabod eich cyfraniad yn llawn,  i'w nodi ar raglen pob dydd ochr yn ochr â 'Cinio'
- Eich taflenni hyrwyddo i'w dosbarthu ar fyrddau yn yr ystafell fwyta ar y diwrnod
- Dangosir eich logo ar wefan Anabledd Dysgu Cymru gyda hyperddolen i wefan y cwmni fel prif noddwr
- Hanner tudalen Hysbyseb lliw A4 i ymddangos yn  llawlyfr y Gynhadledd
- Logo eich cwmni a manylion cyswllt i'w cynnwys yn y pecynnau cynadleddwyr
- Llyfrynnau a deunydd y cwmni i'w cynnwys yn y pecynnau cynadleddwyr
- Cyhoeddiad noddwr yn ystod digwyddiad
- Logo ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd
- Logo ar y sgrîn yn ystod digwyddiad

Gallwch ein helpu i fwydo ein cynrychiolwyr llwglyd am £1500 y dydd, dewiswch un diwrnod neu’r ddau ddiwrnod

# Cysylltu â ni

I drefnu eich hysbysebion, cysylltwch â Lucy O'Leary ar:

Ffôn: 029 2068 1163

Ebost: lucy.oleary@ldw.org.uk

Anabledd Dysgu Cymru
41 Cilgant Lambourne
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG

www.ldw.org.uk